Trwyddedu Tai Amlfeddiannaeth

Llawlyfr ar gyfer Landlordiaid

2024

Fersiwn 2: Medi 2024

Beth yw Trwyddedu Ychwanegol?

Ers Ebrill 1 2024, mae dau fath o Dai Amlfeddiannaeth mae'n ofynnol cael trwyddedau ar eu cyfer nhw yn Rhondda Cynon Taf.

O dan Gynllun Trwyddedu Gorfodol Cymru, mae gofyn bod Tai Amlfeddiannaeth sydd â 3 llawr neu ragor, lle mae 5 person neu ragor yn byw mewn dau gartref neu ragor, yn cael eu trwyddedu. Fe ddaeth y Cynllun Gorfodol i rym ar 1 Mehefin 2006.

Yn ogystal â'r adeiladau hynny y mae angen eu trwyddedu o dan y Cynllun Gorfodol, ers 1 Ebrill 2024, mae gofyn bod **pob** Tŷ Amlfeddiannaeth yn y fwrdeistref yn cael ei drwyddedu o dan *Gynllun Trwyddedu Ychwanegol (Tai Amlfeddiannaeth) 2024*. Bydd y Cynllun hwn yn gweithredu ochr yn ochr â'r cynllun Trwyddedu Gorfodol. Bydd yr un broses yn cael ei dilyn, a bydd yr un cosbau yn gymwys am fethu â chydymffurfio â'r gofynion.

Fel yn achos y Cynlluniau Trwyddedu Ychwanegol blaenorol a oedd yn cael eu gweithredu yn RhCT, a Thrwyddedu gorfodol, bydd angen cais ar gyfer pob eiddo ac nid ar gyfer pob landlord.

Pam mae'r Cyngor yn cyflwyno'r Cynllun Trwyddedu Ychwanegol?

Mae CBSRhCT yn cydnabod y cyfraniad y mae landlordiaid da yn ei wneud i ffyniant y fwrdeistref. Rydyn ni wedi ymrwymo i weithio mewn partneriaeth gyda landlordiaid er mwyn sicrhau bod safon dda o lety, sydd wedi'i rentu'n breifat, ar gael i bob tenant.

Dydy'r Cynlluniau Trwyddedu Gorfodol ac Ychwanegol ddim yn gynlluniau er elw ac mae'r ffioedd sy'n cael eu codi yn mynd tuag at gostau cynnal y cynllun.

Bydd y Cynllun yn helpu i godi ansawdd safonau eiddo sy'n cael ei rentu yn y fwrdeistref, gan ei gwneud hi'n ardal fwy deniadol a diogel i fyw, gweithio ac astudio ynddi.

Beth yw Tŷ Amlfeddiannaeth?

Mae Tŷ Amlfeddiannaeth yn adeilad, neu'n rhan o adeilad, sydd yn brif gartref i 3 neu ragor o bobl sy'n ffurfio 2 deulu neu ragor.

Oherwydd hynny, gall Tŷ Amlfeddiannaeth gynnwys:

- Adeiladau sy'n cynnwys fflatiau un ystafell a/neu fflatiau sydd ddim yn hunangynhwysol, tai a neuaddau/hosteli sy'n cael eu rhannu ('Tai Amlfeddiannaeth Adran 254')

- Adeiladau cyfan sydd wedi'u haddasu'n fflatiau hunangynhwysol ('Tai Amlfeddiannaeth Adran 257')

Gall teulu fod yn berson sengl, cwpl sy'n cyd-fyw, neu'n bobl sy'n perthyn i'w gilydd, e.e. 1 brawd ac 1 chwaer = 1 teulu. 1 brawd, 1 chwaer a ffrind = 2 deulu

Beth yw Tŷ Amlfeddiannaeth Adran 257?

Mae Adran 257 o Ddeddf Tai 2004 yn ymwneud ag adeilad (neu ran o adeilad) sydd wedi'i addasu'n floc o fflatiau hunangynhwysol. Mae'r adeiladau yma'n Dai Amlfeddiannaeth os:

- na chafodd y gwaith addasu ei wneud yn unol â'r 'safonau adeiladu priodol', a
- mae llai na dau draean o'r fflatiau hunangynhwysol yn eiddo i'r meddianwyr.

Mae 'safonau adeiladu priodol' fel arfer yn golygu Rheoliadau Adeiladu 1991 neu ba bynnag Reoliadau Adeiladu diweddarach oedd mewn grym pan gafodd y gwaith ei wneud.

I gael rhagor o wybodaeth, gweler Deddf Tai 2004, atodlen 14 neu gyfeirio at y Siart Llif ar dudalen 4.

Os nad yw'ch eiddo yn Dŷ Amlfeddiannaeth, fydd dim angen trwydded. Cysylltwch â'r Garfan Strategaeth a Safonai Tai os ydych chi'n ansicr ynglŷn ag a yw'ch eiddo yn Dŷ Amlfeddiannaeth.

Eithriadau i'r Cynllun Trwyddedu Ychwanegol

Mae rhai adeiladau penodol wedi'u heithrio o'r ddeddfwriaeth Tai Amlfeddiannaeth:

- adeiladau sy'n cael eu rheoli gan gyngor lleol, cymdeithas tai neu awdurdod yr heddlu, y gwasanaeth tân neu'r gwasanaeth iechyd
- Cartrefi gofal cofrestredig
- Neuaddau preswyl sy'n cael eu rheoli gan y Brifysgol
- Adeiladau mae cymunedau crefyddol yn byw ynddyn nhw
- Adeiladau sydd yn cael eu meddiannu'n bennaf gan berchnogion, gan gynnwys landlordiaid preswyl, lle mae'r perchennog yn byw yn yr adeilad (neu'r fflat) gyda mwyafswm o ddau berson/letywr arall
- Adeilad mae dau berson yn unig yn byw ynddo sydd ddim yn ffurfio cartref/teulu unigol.

Yn ogystal â'r eithriadau uchod, os yw'ch eiddo yn Dŷ Amlfeddiannaeth ond rydych chi'n bwriadu cymryd camau penodol i sicrhau nad yw'n ofynnol i'r eiddo fod wedi'i drwyddedu bellach, fe gewch chi gyflwyno cais i'r Cyngor am 'hysbysiad eithrio dros dro' am gyfnod penodol.

Ydy fy eiddo yn Dŷ Amlfeddiannaeth?



Mae fy eiddo yn Dŷ Amlfeddiannaeth. Pryd bydd gofyn i mi gyflwyno cais am drwydded o dan y cynllun newydd?

Mae'r trwyddedu ychwanegol yn dod i rym ar 1 Ebrill 2024.

Bellach, dyw'r Cyngor ddim yn derbyn ceisiadau am drwyddedau papur Tai Amlfeddiannaeth. Bellach, bydd angen cyflwyno pob cais am drwydded yn electronig gan ddefnyddio'r ffurflen gais ar-lein. Mae modd dod o hyd i'r ffurflen gais yma ar wefan y Cyngor. Ewch i www.rctcbc.gov.uk i wneud cais ar-lein.

Ewch i'r 'Cwestiynau Cyffredin' i weld a oes angen i chi gyflwyno cais am drwydded, ac ar ba gam. Bydd hynny'n dibynnu ar a yw'ch eiddo wedi'i drwyddedu'n flaenorol o dan Gynllun Trwyddedu Ychwanegol 2019 neu'r Cynllun Trwyddedu Gorfodol, neu a yw'ch eiddo yn Dŷ Amlfeddiannaeth trwyddedadwy newydd.

Mae trwydded 5 mlynedd gyda fi sy'n dod i ben ar ôl 31 Mawrth 2024, e.e. cafodd fy nhrwydded ei chyhoeddi am 5 mlynedd gan ddechrau ar 1 Medi 2023. Oes angen i mi wneud unrhyw beth?

Nac oes, does dim angen i chi wneud unrhyw beth. Cafodd Cynllun Trwyddedu Ychwanegol 2019 Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf ei ddirymu ar 31 Mawrth 2024. Mae trwyddedau a gafodd eu cyhoeddi o dan y cynllun yma, ac a oedd yn dal i fod mewn grym ar 31 Mawrth 2024, wedi cael eu trosglwyddo'n awtomatig i'r cynllun newydd a byddan nhw'n parhau'n ddilys nes y byddan nhw'n dod i ben neu'n cael eu diddymu gan y Cyngor neu'u hildio. Does dim gofyniad i gyflwyno cais arall i'r Cyngor am drwydded newydd neu i dalu ffi arall. Serch hynny, rhaid i landlordiaid gyflwyno cais am drwydded newydd cyn i'w trwyddedi presennol ddod i ben. Bydd y Cyngor yn ymdrechu i roi gwybod i landlordiaid ymlaen llaw.

Mae Tŷ Amlfeddiannaeth gyda fi rwy'n ei osod i 4 tenant sy'n ffurfio 3 theulu/chartref. Mae fy nhrwydded bresennol wedi dod i ben. Oes angen i mi gyflwyno cais am drwydded newydd?

Os ydych chi'n gweithredu'ch eiddo yn Dŷ Amlfeddiannaeth, bydd angen i chi gyflwyno cais am drwydded. Mae gostyngiadau ar gael ar gyfer ceisiadau trwydded sy'n dod i law cyn i drwydded bresennol ddod i ben.

Pwy ddylai gyflwyno'r cais am y drwydded a sut mae'n gweithio?

Cyfrifoldeb y person sy'n rheoli'r eiddo (y perchennog a/neu'r rheolwr fel arfer) yw cyflwyno cais am drwydded Tai Amlfeddiannaeth

- Bydd y drwydded yn cael ei dyrannu i ddeiliad arfaethedig y drwydded ac yn berthnasol i eiddo penodol

- Bydd angen trwydded ar wahân ar gyfer pob eiddo y mae'r cynllun yn berthnasol iddo, hyd yn oed os yr un person fydd y perchennog/deiliad y drwydded.
- Does dim modd trosglwyddo trwyddedau, felly, er enghraifft, os gwerthir eiddo trwyddedig, bydd angen i'r perchennog newydd wneud cais am drwydded.

Mae trwydded yn cael ei dyrannu gan y Cyngor, yn amodol ar y pethau canlynol:

- Ydy deiliad arfaethedig y drwydded a'r rheolwr yn cael eu hystyried yn bobl 'addas a phriodol'?
- Ydy'r trefniadau ar gyfer rheoli'r eiddo yn foddhaol?
- Ydy'r Tŷ Amlfeddiannaeth yn cydymffurfio ag Amodau a Safonau Trwyddedu Tai Amlfeddiannaeth y Cyngor?
- Ydy'r eiddo yn addas ar gyfer nifer y bobl sydd wedi'i nodi?

Amrywio trwydded

Os yw unrhyw wybodaeth sy'n ymwneud â'r drwydded bresennol/deiliad y drwydded neu'r rheolwr yn newid yn ystod y cyfnod mae'r drwydded wedi'i dyrannu ar ei gyfer, yna, bydd gofyn i chi gyflwyno cais i amrywio'r drwydded. Byddai hyn yn cynnwys newidiadau megis enwau a chyfeiriadau neu nifer y preswylwyr.

Gwrthod trwydded

Caiff y Cyngor wrthod dyrannu trwydded. Os yw'r Cyngor yn gwrthod dyrannu trwydded, bydd y rhesymau'n cael eu nodi'n glir yn y dogfennau sy'n cael eu hanfon at ddeiliad y drwydded. Mae darpariaethau yn y ddeddfwriaeth i apelio yn erbyn hyn.

Dileu'r drwydded

Caiff y Cyngor ddirymu trwyddedau. Os yw'r Cyngor yn dirymu trwydded, bydd y rhesymau'n cael eu nodi'n glir yn y dogfennau sy'n cael eu hanfon at ddeiliad y drwydded. Mae darpariaethau yn y ddeddfwriaeth i apelio yn erbyn hyn.

Beth yw'r weithdrefn drwyddedu?

1. Pan fydd cais am drwydded yn dod i law'r Cyngor, byddwn ni'n gwneud yn siŵr ei fod e wedi'i gyflwyno'n gywir a bod yr holl ddogfennau angenrheidiol wedi'u hatodi i'w ategu. Mae ffi'r drwydded yn daladwy mewn dwy ran.

   - Rhan 1 – bydd y rhan yma'n cynnwys y costau rhesymol o weinyddu'r cais am drwydded a gwneud penderfyniad am y cais
   - Rhan 2 – bydd y rhan yma'n daladwy ar ôl i'r cais gael ei gymeradwyo a bydd yn cynnwys yr holl gostau rhesymol er mwyn i'r Cyngor barhau i gynnal gweithdrefnau rheoleiddio a gorfodi.

   Rhaid talu ffi Rhan 1 i'r Cyngor yn rhan o'r cais ar-lein. Caiff y ffi ei chyfrifo'n awtomatig drwy'r wybodaeth a ddaw i law yn eich cais, ond bydd gwybodaeth bellach ar ddiwedd y llawlyfr yma hefyd yn eich galluogi i gyfrifo ymlaen llaw y ffi y mae rhaid i chi ei thalu.

   Ar ôl cwblhau'r ffurflen gais ar-lein a thalu ffi Rhan 1, byddwch yn cyflwyno'ch cais. Unwaith i ni benderfynu bod y cais wedi cael ei gyflwyno'n briodol, bydd y ffi yn cael ei chadw ac mae hyn yn golygu eich bod chi wedi cyflawni'ch cyfrifoldeb o ran cyflwyno cais.

2. Byddwch chi'n derbyn llythyr cydnabod gan y Garfan Strategaeth a Safonau Tai a bydd eich cais yn cael ei drosglwyddo i swyddog ar gyfer prosesu pellach.

3. Bydd apwyntiad yn cael ei drefnu i swyddogion o'r Cyngor ymweld â'ch eiddo er mwyn ei archwilio. Bydd hyd y cyfnod rhwng cyflwyno cais a chynnal yr archwiliad yn dibynnu ar nifer y ceisiadau sy'n dod i law ar yr un pryd â'ch cais chi.

4. Bydd archwiliad o'ch Tŷ Amlfeddiannaeth yn cael ei gynnal i sicrhau ei fod e'n cydymffurfio safonau a gofynion perthnasol y Cyngor ar gyfer trwyddedu Tai Amlfeddiannaeth.

5. Bydd y swyddog yn penderfynu a yw'r eiddo yn addas yn gyffredinol, ac a yw'n addas ar gyfer yr uchafswm o breswylwyr. Bydd e hefyd yn penderfynu a yw deiliad y drwydded a'r rheolwr, ill dau, yn bobl addas a phriodol, ac a yw trefniadau rheoli boddhaol ar waith.

6. Yna, bydd y cais yn cael ei brosesu a bydd y dogfennau yn cael eu cyhoeddi. Ar hyn o bryd, bydd angen i chi dalu Rhan 2 o'r ffi drwyddedu. Bydd y Cyngor yn rhoi gwybod i chi bryd hynny y swm mae angen i chi ei dalu.

Pa mor hir y bydd y Trwyddedu Ychwanegol yn para ac am ba hyd fydd y drwydded yn cael ei chyflwyno?

Bydd y Cynllun Trwyddedu Ychwanegol yn para am 5 mlynedd a bydd trwyddedau yn cael eu cyhoeddi hyd at ddiwedd y cynllun yn 2024.

Fel arfer, bydd trwydded yn ddilys am uchafswm o 5 mlynedd. Serch hynny, os yw'r Cyngor â phryderon penodol mewn perthynas â'r Tŷ Amlfeddiannaeth ei hun neu sut mae'n cael ei reoli, efallai penderfynwn ni gyhoeddi'r drwydded am gyfnod llai, er enghraifft, 2 flynedd. Os yw'r landlord yn oedi wrth gynnal gwaith gofynnol yn yr eiddo, a bod yr oedi yn afresymol, mae'n bosibl y bydd dyddiad dechrau'r drwydded yn cael ei ôl-ddyddio i gymhwyso'r cyfnod yma.

Bydd y drwydded yn pennu'r uchafswm o bobl a all fyw yn y Tŷ Amlfeddiannaeth.

Bydd copi o'r drwydded sy'n cael ei chyhoeddi, ynghyd ag unrhyw wybodaeth arall sy'n cael ei darparu yn y ffurflen gais, yn cael eu cadw ar Gofrestr Gyhoeddus gan y Cyngor.

Beth fydd yn digwydd os na fydda i'n cyflwyno cais am drwydded?

Mae'n drosedd o dan Adran 72 o Ddeddf Tai 2004 os yw person sydd â rheolaeth dros Dŷ Amlfeddiannaeth, neu'n ei reoli, sy'n gweithredu Tŷ Amlfeddiannaeth trwyddedadwy y mae'n ofynnol i'w drwyddedu o dan y Cynllun Trwyddedu Ychwanegol neu Orfodol, yn methu â'i drwyddedu. **Mae modd rhoi cosb o gollfarn ddiannod neu ddirwy ddiderfyn.**

O dan rai amgylchiadau, gall tenant sy'n byw mewn Tŷ Amlfeddiannaeth, a ddylai fod wedi cael ei drwyddedu, gyflwyno cais am Orchymyn Ad-dalu Rhent er mwyn adennill y rhent a dalodd yn ystod y cyfnod roedd yr eiddo heb drwydded. Mae'r Cyngor hefyd yn gallu hawlio taliadau Budd-dal Tai a wnaed mewn perthynas â Thai Amlfeddiannaeth heb drwyddedau.

All tenantiaid sy'n byw mewn eiddo a ddylai fod wedi'i drwyddedu – ond a oedd heb drwydded mewn gwirionedd – ddim cael eu troi allan hyd nes i'r eiddo amlfeddiannaeth gael ei drwyddedu.

Pa amodau a safonau trwydded fydd yn berthnasol a beth fydd yn digwydd os na fyddaf yn cydymffurfio â nhw?

Mae gwybodaeth ar gael ynglŷn â'r amodau a'r safonau sy'n berthnasol yn y llawlyfr 'Canllawiau i Safonau mewn Tai Amlfeddiannaeth' neu ar wefan y Cyngor: www.rctcbc.gov.uk/gwybodaethilandlordiaid

Os byddwch chi'n methu â chydymffurfio ag amodau'r drwydded, byddwch chi mewn perygl o gael eich erlyn a thalu dirwy o hyd at £5,000 fesul amod. Yn ogystal â hynny, gall hyn hefyd effeithio ar eich statws yn berson 'addas a phriodol' a gall eich trwydded gael ei dirymu.

Ffioedd a gostyngiadau

1. Ffioedd sy'n gymwys o 1 Ebrill 2024

Ffioedd ar gyfer Trwyddedau Tai Amlfeddianaeth (ffi dwy ran)		
Rhan 1 – Ffi Ymgeisio	**Cais newydd, neu gais hwyr i adnewyddu'r drwydded** **£625**	**Adnewyddu trwydded bresennol (cais wedi'i gyflwyno cyn i'r drwydded bresennol ddod i ben)** **£594**
Rhan 2 – Ffi i'w thalu ar ôl i'r drwydded gael ei chymeradwyo (Ffi sy'n daladwy ar bris fesul uned ar gyfer llety sydd wedi'i feddiannu gan un aelwyd)	**Tai Amlfeddiannaeth sydd ddim yn cydymffurfio, ac sy'n parhau i beidio â chydymffurfio 8 wythnos ar ôl cynnal yr arolygiad cychwynnol mewn perthynas â'r cais am drwydded.** **£179**	**Tai Amlfeddiannaeth sy'n cydymffurfio'n llawn ar adeg yr arolygiad cychwynnol neu'n cydymffurfio'n llawn o fewn cyfnod o 8 wythnos ar ôl cynnal yr arolygiad cychwynnol mewn perthynas â'r cais am drwydded.** **£147**

Cymhellion gostyngiad ar gyfer adnewyddu trwydded Tai Amlfeddiannaeth

Fel sy wedi'i amlinellu uchod, bydd gostyngiad yn cael ei roi ar gyfer cyflwyno cais am adnewyddu trwydded yn gynnar. Diben y gostyngiad yw cymryd i

ystyriaeth y baich gweinyddol a gorfodaeth llai sy'n gysylltiedig â cheisiadau o'r fath, ac annog arfer da. Er mwyn bod yn gymwys ar gyfer y gostyngiad, rhaid cyflwyno cais ar-lein wedi'i gwblhau'n briodol cyn i'r drwydded flaenorol ddod i ben.

O ran ceisiadau am adnewyddu trwydded ar-lein ddaw i law ar ôl dyddiad dod i ben y drwydded gyfredol, bydd raid talu'r ffi ar gyfer trwydded lawn.

Eiddo sy'n cydymffurfio

Bydd gostyngiad pellach yn cael ei gymhwyso fesul uned o lety ar gyfer ceisiadau newydd a cheisiadau adnewyddu lle bydd eiddo Tai Amlfeddiannaeth Tai Amlfeddiannaeth yn cydymffurfio'n llawn neu'n gwneud newidiadau er mwyn cydymffurfio'n llawn o fewn cyfnod o 8 wythnos ar ôl cynnal yr archwiliad cychwynnol mewn perthynas â'r cais am drwydded. Bydd y gostyngiad yma'n annog cydymffurfiaeth brydlon â deddfwriaeth gyfredol ac amodau trwydded. Yn ogystal, bydd yn arwain at ddull prosesu ceisiadau sy'n fwy effeithlon gan leihau amser Swyddogion Achos ac adnoddau adrannol.

Cynllun Achredu Eiddo Trefforest

Mae'r Cynllun Achredu Eiddo wedi cael ei gyflwyno gyda'r bwriad o godi ansawdd, amwynder a rheolaeth y Stoc Tai i'w Rhentu'n Breifat yn ardal Trefforest yn Rhondda Cynon Taf. Bydd y cynllun hefyd yn codi proffil landlordiaid da ac yn cydnabod safon uchel eu dull rheoli.

Mae'r Cynllun yn un gwirfoddol sydd ar gael i landlordiaid ac asiantau gosod tai. Does dim rhaid talu i ymuno â'r Cynllun. Bydd eiddo'n cael ei asesu yn unol â'r safonau y cytunwyd arnyn nhw. Bydd yr wybodaeth ar gael i ddarpar denantiaid sy'n chwilio am lety i'w rentu yn ardal Trefforest.

Safonau

Bydd eiddo'n cael ei ystyried yn ôl safonau cytunedig o ansawdd ac arferion rheoli gan ddibynnu ar ei safon a'i foethusrwydd. Mae 4 lefel o achrediad i adlewyrchu safon yr eiddo a'i gydymffurfiad â gofynion deddfwriaethol, ynghyd ag ansawdd y prosesau gweinyddu a rheoli tai.

Am ragor o wybodaeth, ewch i'n gwefan:

www.rctcbc.gov.uk/RhentuDoethCymru

Mae Cyngor Rhondda Cynon Taf hefyd yn ceisio cefnogi landlordiaid drwy fforwm landlordiaid. Am ragor o wybodaeth ewch i'n tudalen we www.rctcbc.gov.uk/fforwmlandlordiaid

Rhentu Doeth Cymru

Daeth Deddf Tai (Cymru) 2014 i rym ar 23 Tachwedd 2015 ac mae'n sicrhau bod cofrestr gynhwysfawr yn cael ei sefydlu o'r sector rhentu preifat yng Nghymru. Yn ogystal â hynny, mae'n ofynnol i'r bobl hynny sy'n ymwneud yn uniongyrchol â gosod a rheoli eiddo gael hyfforddiant addas a bod yn 'addas a phriodol' i gyflawni'r gweithgareddau hynny.

Beth mae hyn yn ei olygu i chi?

Os ydych chi'n cynnig eiddo i'r farchnad neu'n gosod eiddo ar rent yng Nghymru ar Denantiaeth Sicr (gan gynnwys Tenantiaeth Fyrddaliol Sicr) neu Denantiaeth Reoledig, mae'n ofynnol i chi o dan y gyfraith gofrestru yn landlord a rhoi gwybod am yr eiddo i Rentu Doeth Cymru. Yn ogystal â hynny, chewch chi ddim rheoli eiddo neu lety oni bai fod gyda chi drwydded i wneud hynny, ac os byddwch chi'n penodi rhywun arall i wneud y gwaith gosod a rheoli, rhaid ichi sicrhau eu bod yn drwyddedig i wneud gwaith o'r fath ar eich rhan.

Sylwch, ers 23 Tachwedd 2016 bu'n dramgwydd peidio â chydymffurfio â gofynion y Ddeddf. Gall hyn arwain at hysbysiad cosb benodedig a/neu erlyniad. Yn ogystal â hynny, mae goblygiadau eraill, er enghraifft, fydd dim hawl i gyflwyno Gorchymyn Troi Allan Dim Bai adran 21; neu fod yn destun Gorchymyn Ad-dalu Rhent neu Atal Rhent.

Mae hi felly yn hanfodol eich bod chi'n cymryd camau i gofrestru'ch eiddo ar unwaith. Mae modd gwneud hyn ar-lein neu ar ffurflen bapur. Os ydych chi hefyd yn rheoli'r eiddo eich hun, dylech chi fwrw ymlaen â chyflwyno'ch cais am drwydded yn ddi-oed, neu benodi asiant trwyddedig. Er mwyn cyflwyno'ch cais am drwydded rhaid i chi gwblhau hyfforddiant addas. Mae cyrsiau ar gael mewn lleoliadau ledled Cymru neu mae modd cael yr hyfforddiant gofynnol ar-lein. Bydd modd i chi drefnu'r rhain yn y cyfrif rydych chi'n ei greu pan fyddwch chi'n cofrestru'n landlord ar y wefan yma: www.rhentudoeth.llyw.cymru Fel arall, fe gewch chi'r hyfforddiant gofynnol gydag unrhyw un o'r darparwyr cymeradwy. Mae'r holl opsiynau hyfforddiant i'w gweld yma: www.rhentudoeth.llyw.cymru

Os oes gyda chi unrhyw gwestiynau, ewch i wefan Rhentu Doeth Cymru: www.rhentudoeth.llyw.cymru neu ffonio 03000133344.

Newidiadau i Ofynion Cynllunio ar gyfer Tai Amlfeddiannaeth yng Nghymru

Ar 25 Chwefror 2016, creodd Llywodraeth Cymru ddosbarth defnydd newydd (C4) ar gyfer Tai Amlfeddiannaeth llai, a oedd yn flaenorol yn nosbarth 'Tai Annedd' (C3). Canlyniad hyn yw bod angen caniatâd cynllunio erbyn hyn ar gyfer Tai Amlfeddiannaeth newydd ar gyfer llai na 7 o bobl – ond doedd dim angen hynny yn y gorffennol.

Mae Tai Amlfeddiannaeth mawr ar gyfer mwy na 7 o bobl yng nghategori Sui Generis o hyd. Bydd hefyd angen caniatâd cynllunio ar eu cyfer.

I gael cyngor, anfonwch neges e-bost i: GwasanaethauCynllunio@rhondda-cynon-taf.gov.uk neu ffonio 01443 494782.

Rhagor o wybodaeth a chyngor

I gael rhagor o wybodaeth ynglŷn â thrwyddedu Tai Amlfeddiannaeth a sut i gyflwyno cais, ewch i:
www.rctcbc.gov.uk/GwybodaethiLandlordiaid

I ofyn am ragor o gymorth, cysylltwch â'r Garfan yn uniongyrchol:

E-bost: iechydycyhoeddathai@rhondda-cynon-taf.gov.uk

Rhifau ffôn defnyddiol eraill

Cynllunio (estyniadau, datblygiadau newydd)	01443 494700
Rheoli Adeiladu (gwaith adnewyddu)	01443 494747
Canolfan Cyngor ar Faterion Tai (cysylltiadau landlordiaid a thenantiaid)	01443 485515
Gwasanaeth y Swyddogion Rhenti (lefelau rhenti)	0300 062 8017
Gwasanaeth Llety Prifysgol De Cymru	01443 482844
	01443 482040
Budd-dal Tai (Rhenti)	01443 425002